Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Fehefin 2025
# Gynhalwyd yng Nghanolfan GLASINFRYN

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis Cadeirydd; Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng A Joyce; Cyng J griffiths; Cyng J Pierce; Cyng L A James; Cyng G Owen; S E Jones Cyfieithydd a'r Clerc
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng D Jones-Morris Cyng B Jones; Cyng E Roberts; Cyng H Griffiths a'r Cyng M Jones
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Cyng L A James a Cyng A Joyce yn ymddiriedolwyr yng Nghanolfan Penrhos
4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 8fed o Fai / May 2025**
   Derbynwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan Cyng J Pierce
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   Llwybr Llesiant wrth gylchfan Ysbyty Gwynedd wedi ei chwblhau a'r groesfan ochr Capel Graig i'w chroesawy ag yn cael defnydd helaeth ond dal angen cytuno ar leoliad ochr y siop a dwyn pedswad i'w chael mewn lle yn eitha sydyn
   Bocs blodau ar ordor ag angen atgoffa fod y llinnellau melyn wrth gyffordd Coed y Maes yn dal heb eu gosod
   Archwyliad allannol 2023-24 yn parhau i ofyn pryder ag yn dal i ddisgwyl am eglurhad
6. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
      Mantolen ariannol ddosbarthwyd yn dangos £27,937.84 yn y Cyfrif Cyfredol a £41,764.03 yn y Cyfrif Cadw
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 28/05/2025**
      Dosbarthwyd cofnodion drafft oedd yn datgan fod Bocsus Bldau Caerhun wedi eu derbyn a'i ail-leoli wrth y gysgodfan bws Clerc a'r Cadeirydd wedi cyfarfod ei cyfreithwyr i drafod y Pen-telerau am y ganolfan newydd
   iii. **Derbyn Adroddiad Archwiliad mewnol**
      Adroddiad archwyliad mewnol 2024-25 wedi ei derbyn

1.1 Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau ariannol a llywodraethu'r Cyngor yn unol â ymarfer priodol fel yr amlinellir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru / Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol "Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru - Canllaw Ymarferydd 2019".

1.2 Roedd yr archwiliwr mewnol yn ymgymryd â rhaglen waith yn seiliedig ar asesiad o risg. Roedd cwmpas a maint yr archwiliad yn gymesur ag anghenion, maint ac amgylchiadau'r Cyngor, ac yn seiliedig ar sampl o ddogfennau

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Pentir ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd

   iv. **Derbyn Datganiad Cyfrifyddu 2024-25**

Derbynwyd y datganiad cyfrifyddu a chymell y Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo a dyddio y Ffurflen Flynyddol

**Yn unol a hynny arwyddwyd a dyddwyd y ffurflen flynyddol gan y ddau**

v. **Cronfa Gwynedd Ni i Gynghorau Tref a Chymuned**

'Roedd y clerc wedi cylch-redeg e-bost oedd wedi ei dderbyn am gyllid oedd ar gael i Gynghorau Cymuned i wella ansawdd bywyd cymunedol yn ein ardal £6,500.00 fyddai ar gael i Cyngor Cymuned Pentir

Gofyn i bawb feddwl am syniadau ag os yn bosib eu prisio a'i rhannu yng nghyfarfod Gorffennaf fel bydd posib cytuno arnynt ag anfon ffurflen gais i hawlio'r cyllid cyn diwedd Gorffennaf

**7. Cynllunio / Planning**

**C25/0267/25/DT Lleoliad** 31, Lon Y Wyddfa Penrhos Road, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2QE Codi estyniad cefn unllawr newydd

C25/0391/25/TR Lleoliad Tir Yn Parc Y Faenol / Land At Vaynol Park, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP Eithriad cynllunio ar gyfer uwchraddio dau rychwant o linell uwchben foltedd uchel bresennol i 3 cham **Dim Gwrthwynebiad**

C25/0383/25/DT Lleoliad 21 Glan Menai, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NQ Dymchwel adeilad allanol tu cefn i'r tŷ ag adeiladu estyniad un llawr newydd i ddarparu ystafell wely newydd ar y llawr gwaelod, gan gynnwys ffensio terfyn yr ardd gefn **Dim Gwrthwynebiad**

**8. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Cyfarfodydd Ardal Unllais**
  Y Clerc wedi derbyn cais am **ddau** enw fyddai yn fodlon mynychu cyfarfodydd Unllais naill ai yn rhithiol a/neu wyneb yn wyneb. Dim yn rheidrwydd bod dau yn presennol ond bod presennoldeb o'r Cynghorau wedi bod yn wan
  **Cyng A Joyce yn hapus i'w enw fynd ymlaen**
  Gan fod 5 ymddiheuriad efallai mae doeth fyddai disgwyl am ail enw tan cyfarfod Gorffennaf
- **Cais gwella Llwybr troed Treborth**
  Y Clerc wedi derbyn cwyn am gyflwr llwybr Rhif 12 heibio Treborth Yr ubigolyn eisioes wedi cysylltu a'r Adran Tramwyo a'r Adran Eiddo Cyngor Gwynedd yn ogystal a'i Aelod Lleol **Clerc i gysylltu a'r adrannau eto i holi am ddiweddariad**
- **Cyfarfod Gamlin's Ganolfan/Ysgol y Faenol**
  Bu i'r Clerc a'r Cadeirydd gyfarfod ein cyfreithwyr i drafod y drafft pen-telerau ar gyfer y Ganolfan Newydd
  Prif bwyntiau wedi eu rhannu yng nghofnodion Pwyllgor cyllid 28ain o Fai
  Ers hynny bu cyfarfod pellach ddeuddydd yn ol gyda Swyddogion Gwynedd a bod rheini bellach wei cyfarwyddo eu adran gyfreithiol i drafod drafft o'r brydles hefo Gamlins
  Ceisiodd Cyng A Joyce ddadlau y dylem drafod sut y bydd y ganolfan newydd yn cael ei rhedeg. Cytunwyd efallai byddai hynny yn gyn-amserol ar hyn o bryd ag mae cael y brydles yn ei lle a'i arwyddo oedd bwysica ag wedyn ystyried y gwahanol opsiynau sydd agored i'r Cyngor ynglyn a'i rhedeg

Mae amserlen Cyngor Gwynedd yn amlwg wedi lliithro yn sylweddol ond ei bod hefyd mewn ymgynghoriad hefo Cwmni dylunio meysydd parcio yn ystyried datbygu llain o dir gwyllt ar gyfer lleoliadau parcio ychwanegol

- **Yswiriant** **Trafod pris adnewyddu** Y clerc eisioes wedi cysylltyu a'r Asiant Gallagers i esbonio ein bod yn disgwyl gwerthiant Canolfan Glasinfryn oedd yn nwylo syrfewr Yr awgrym gafwyd oedd i ni dalu y pris adnewyddu presennol ag ychwanegu Canolfan Glasinfryn i'r polisi
  **Cytunwyd i'r Clerc anfon siec i dalu y gost adnewyddu am £2926.16**
- **Cae chwarae Caerhun** **Llanast wedi ei adael/glirio** Daeth i sylw y Clerc fod rhywrai wedi gwneud llanast fwy na difrod yn y cae Cafodd y llanast ei glirio gan y Contractwr torri gwair oedd yn adrodd nad oedd dim llanast yna ddeuddydd ynghynt wrth iddo dorri y gair yna Bydd yn cynnwys rhywfaint o gost ychwanegol am glirio ar ein rhan
  **Ymchwiliad Mis Mehefin**
  Ar y gweill ond dim dyddiad hyd yma

**9. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng I Ellis** **Goleuadau Nadolig**

Cytunwyd i fynd ymlaen i archebu 6 lamp ychwanegol i fynd ar lampau stryd Ffordd Penrhos

**10. Newyddion y Mis**

Cyng C W Owen yn nodi newyddion y mis ar gfer ei rhoi i fyny ar ein gwefan

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05